# CYFLWYNIAD

GWNAETH Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion lawer o waith yn ystod y blynyddoedd drwy'r *Cymmrodor*, y *Trafodion*, a chyhoeddiadau eraill, trwy gefnogi gwahanol ymdrechion a fu er mantais a lles i drigolion Cymru, a thrwy egnïon ei haelodau mewn llawer cylch. Ond yn y rhestr faith ni ellir nodi un ymdrech unigol o faintioli'r Bywgraffiadur Cymreig, nac un a dynnodd mor helaeth ar holl adnoddau'r Gymdeithas.

Cyflwynir y gyfrol Gymraeg o'r gwaith hwn gan y Cyngor gyda hyder a diolchgarwch: hyder y bydd y gwaith yn gyfraniad gwerthfawr i hanes gorffennol ein cenedl, a diolchgarwch i'r rhai a fu'n llafurio mor ddyfal drwy'r blynyddoedd, ac i'r rhai a gyfrannodd gymaint at y gost.

Bu'r llafur yn faith a chaled: bu'r baich ariannol yn drwm. Ar sail ffydd gadarn yn y Golygyddion aeth y Cyngor ymlaen â'r gwaith, a gostegwyd y pryderon ariannol gan haelioni llu o gyfeillion.

Y bwriad yn y dechrau oedd cynhyrchu bywgraffiadur newydd ac annibynnol. Ymgymerodd y Gymdeithas â'r gwaith yn hyderus gyda Syr John Edward Lloyd, F.B.A., M.A., D.LITT., yn Olygydd Ymgynghorol a'r Athro R. T. Jenkins, M.A., D.LITT., F.S.A., yn Olygydd. Trwy sicrhau dau ysgolhaig mor nodedig o gymwys, a'r berthynas rhyngddynt mor ddymunol, caed argoelion am gydweithrediad hapus.

Sylweddolwyd na ellid cyhoeddi'r gwaith yn gyfan am beth amser oherwydd dyletswyddau eraill yr Athro R. T. Jenkins fel pennaeth adran Hanes Cymru yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor. Yna daeth y rhyfel a rhoed y gwaith o'r neilltu. Pan ailddechreuwyd arno ar ôl y rhyfel galwai'r sefyllfa ariannol am gryn wroldeb a doethineb. Yn 1947 bu farw Syr John Lloyd, ac ad-drefnwyd Bwrdd y Golygyddion gan y Cyngor. Yn ffodus sicrhawyd gwasanaeth Syr William Llewelyn Davies, M.A., LL.D., F.S.A., pennaeth y Llyfrgell Genedlaethol, fel Cyd-Olygydd, a'r Athro R. T. Jenkins yn Brif Olygydd. Bu'r ddealltwriaeth a'r cydweithrediad rhyngddynt yr un mor llwyr a dymunol ag ydoedd gyda Syr John Lloyd. Yr un pryd penderfynodd Cyngor y Llyfrgell Genedlaethol gefnogi'r gwaith, ac felly sicrhawyd inni gydweithrediad gwerthfawr staff ysgolheigaidd y Llyfrgell. Yn anffodus bu farw Syr William Davies cyn gorffen o'r gwaith, er mawr ofid inni oll, ac fe adawyd y Prif Olygydd yn unig i ddod â'r llong yn ddiogel i borthladd. Cafodd gynhorthwy gwerthfawr Miss Beatrice Davies, M.B.E.

Yr unig atalfa a roed ar y Golygyddion oedd dilyn polisi Cyngor y Gymdeithas drwy wneuthur y Bywgraffiadur yn un gyfrol o tua mil

o dudalennau. Gwaith anodd oedd gwneud amcangyfrif o faint y gyfrol; gwnaed amryw o arbrofion, ond troes pob arbrawf yn fethiant. Ar un adeg barnai rhai o aelodau'r Cyngor y gellid crynhoi'r gwaith i bum cant o dudalennau, ond unwaith y penderfynwyd rhoddi lle i rai o'r 'proffwydi bychain,' gwelwyd fod cyfrol o'r faint yn gwbl amhosibl. Adeg arall, barnai rhai y dylid cyhoeddi bywgraffiadur o amryw gyfrolau. Ond safai'r Cyngor yn gadarn dros un gyfrol hwylus. Gwelent yr angen am gyhoeddi cyfrol addas a hwylus am bris a fyddai yng nghyrraedd pawb; cyfrol at wasanaeth darllenwyr unigol yn hytrach nag at ddibenion sefydliadau yn unig. Dyna'r polisi a benderfynodd gwmpas y Bywgraffiadur.

Yn y dechrau, penderfynwyd cyfarfod y costau yn gyfan gwbl trwy danysgrifiadau; nid oedd dim o'r costau i ddyfod o drysorfa brin y Gymdeithas. Cyn 1939 gellid ystyried hyn yn bolisi ymarferol, ond daeth cynnydd mawr mewn treuliau yn y blynyddoedd dilynol, ac erbyn 1945 nid oedd ond £75 15s. 0c. yng nghronfa'r Bywgraffiadur. Diddymodd y Gymdeithas ei phenderfyniad a chyflwynodd rodd o £1,000 i'r gronfa. Cyn diwedd 1946, fodd bynnag, yr oedd arian yn ddyledus i'r banc a throsglwyddodd y Gymdeithas £250 ar fenthyg o'i thrysorfa gyffredinol er mwyn ysgafnhau'r baich. Apeliwyd at aelodau'r Gymdeithas a chaed ateb haelfrydig; rhoes nifer o'r rhai a sgrifennai'r bywgraffiadau eu cydnabyddiaeth yn ôl.

Er hyn i gyd methodd pob ymdrech â chyfarfod y cynnydd parhaus yn y gost. Penderfynodd y Cyngor ofyn am gymorth gan awdurdodau siroedd a bwrdeisdrefi Cymru a Mynwy a oedd erbyn hynny wedi derbyn symiau sylweddol dan Ddeddfau'r Eglwys yng Nghymru, 1914–1945. Nid oedd y wybodaeth am y Bywgraffiadur eto wedi lledaenu mor gyffredinol nes dyfod o bobl i ddeall ystyr yr ymdrech. Ymwelodd yr Ysgrifennydd â phob sir a bwrdeisdref yng Nghymru, cyfarfu ag aelodau o'r cynghorau a'u swyddogion, a thrwy annerch cynadleddau o bwyllgorau addysgol a diwylliadol, a danfon llu mawr o lythyrau, llwyddodd i ennill eu cefnogaeth. Daeth pobl i wybod am y gwaith, a daeth cyfraniadau oddi wrth Brifysgolion Cymru, Lerpwl, a Llundain, ac o Goleg Iesu, Rhydychen. Argyhoeddwyd y siroedd a'r bwrdeisdrefi gan ymdrechion diffuant y Gymdeithas a'i haelodau, a chan y sicrwydd o deilyngdod safon y gwaith. Erbyn hyn y mae'r siroedd bron i gyd wedi cyfrannu punt y cant o'r arian a dderbyniwyd ganddynt dan Ddeddfau'r Eglwys, a'r gweddill ohonynt yn ystyried cyfrannu ymhellach. Y mae'r gronfa o hyd yn agored.

Wedi hyn apeliwyd at y 'Pilgrim Trust.' Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr pa gyfraniad a wnaed gan y Cymry eu hunain at gostau'r Bywgraffiadur, a bu'r ateb yn foddion i ennill y rhodd fwyaf o'r cwbl.

Y mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi pob cymorth a gafwyd, a threfnir i gyhoeddi rhestr gyflawn o'r rhoddwyr a'u cyfraniadau yn y *Trafodion.*

Ni dderfydd cyfrifoldeb y Gymdeithas gyda chyhoeddi'r gyfrol Gymraeg hon. Y mae'r gwaith i barhau. Cyhoeddir cyfrol yn Saesneg yn nes ymlaen. Bydd angen hefyd am wneuthur darpariaeth ariannol ar gyfer cyhoeddi Atodiadau dros gyfnodau o bump i ddeng mlynedd er mwyn cadw'r gwaith i fyny â'r amseroedd.

Y mae'r Gymdeithas yn ffyddiog y bydd i'r derbyniad a roddir i'r gyfrol hon warantu llwyddiant ei hymdrech i gwpláu'r gwaith.

JOHN CECIL-WILLIAMS,

*Ysgrifennydd.*

*Gŵyl Ddewi* 1953.